@chwaraeonrhct

www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Prosiect Lleoliad Gwaith Myfyrwyr yn Ysgol Gynradd Ynys-hir

Bob blwyddyn, rydyn ni'n cynnig lleoliadau gwaith mewn ysgolion i fyfyrwyr Prifysgol De Cymru yn rhan o un o fodiwlau eu cwrs. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022 i 2023, gweithion ni gyda 22 o fyfyrwyr a gwblhaodd 1,470 awr mewn 10 ysgol gynradd wahanol, gan ymgysylltu â thros 550 o ddisgyblion.

Cafodd 3 myfyriwr eu lleoli yn Ysgol Gynradd Ynys-hir i gwblhau prosiect chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Fe wnaethon nhw ddatblygu prosiect mewn partneriaeth â'r ysgol a'r nod oedd cynyddu lefelau cyfranogiad disgyblion ym mlynyddoedd 2 a 3. Nododd yr ysgol fod y blynyddoedd yma yn gwneud llawer llai o weithgarwch corfforol nag eraill. Defnyddiodd y myfyrwyr themâu creadigol i ddatblygu a chyflwyno sesiynau aml-chwaraeon a oedd yn canolbwyntio ar fagu hyder. Nod y sesiynau oedd gwella sgiliau symudedd sylfaenol, a chael y disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol a'i fwynhau.

Gan ddefnyddio straeon, darparodd y myfyrwyr weithgareddau a oedd yn cyflwyno'r disgyblion i wrthrychau, sgiliau, gemau ac adnoddau amrywiol. Hefyd, fe gyflwynodd y myfyrwyr ychydig o gemau a oedd yn gysylltiedig â chwaraeon i wella gwybodaeth y disgyblion am chwaraeon allweddol. Fe wnaethon nhw gynllunio'r sesiynau i flaenoriaethu cael hwyl, fel y byddai'r disgyblion yn teimlo o dan lai o bwysau wrth chwarae. I fodloni targedau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, fe wnaeth y myfyrwyr gynnwys tasgau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau yn eu sesiynau.

Mwynhaodd y disgyblion y sesiynau ac fe wnaeth eu hyder wella bob wythnos. Roedd yr ysgol yn hapus iawn gyda'r prosiect ac mae'r athrawon wedi nodi bod y prosiect wedi cael effaith fawr ar y disgyblion. Dangosodd ganlyniadau Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2022 mai dim ond 38% o ddisgyblion ym mlwyddyn 3 yr ysgol a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon y tu hwnt i'r cwricwlwm. Yn dilyn y prosiect, mae 21 o gyfranogwyr wedi ymuno â grŵp chwaraeon newydd y tu allan i'r ysgol yn barod. Mae hyn yn dangos llwyddiant y lleoliad gwaith a bod y disgyblion yn mwynhau bod yn fwy heini.

> *"Dydd Iau yw fy hoff ddydd oherwydd rydw i'n gwybod eich bod chi'n dod i'r ysgol"* - Plentyn
>
> *"Rydych chi wir wedi helpu rhai disgyblion i ddod allan o'u cregyn. Fydden nhw ddim wedi cymryd rhan yn y gorffenol, ond maen nhw'n ei fwynhau nawr"* - Athro

Mae **93%** yn teimlo'n iachach

Mae **100%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

Mae **100%** am barhau i ymarfer corff

Mae **79%** yn teimlo'n fwy hyderus

Mae **97%** yn teimlo'n hapusach

**44** o bobl yn cymryd rhan

RHONDDA CYNON TAF